Senedd Cymru
Welsh Parliament




# Canfyddiadau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Beth glywson ni am sut mae plant a phobl ifanc anabl yn cael eu trin yn yr ysgol a'r feithrinfa



Mawrth 2024

| | Tudalen | Gynnwys |
|---|---|---|
| Senedd Cymru Welsh Parliament | | |


| | | |
|---|---|---|
| | Beth roedden ni eisiau ei wybod | 1 |
|  | Beth wnaethon ni | 3 |
|  | Pethau roedden ni wedi holi amdanyn nhw | 4 |
|  | Pethau da a glywson ni | 5 |
|  | Peth mawr 1: Cynhwysiant | 6 |
|  | Peth mawr 2: Hygyrchedd | 11 |
|  | Peth mawr 3: Sut mae teuluoedd yn teimlo | 20 |
|  | Beth fydd yn digwydd nesaf | 24 |
|  | Rhagor o wybodaeth | 26 |

# Beth roedden ni eisiau ei wybod




Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ydyn ni.



Roedden ni eisiau gwybod sut mae plant a phobl ifanc **niwrowahanol** yn cael eu trin yn yr ysgol a'r feithrinfa.


Dyma sut mae dweud **niwrowahanol**:
niw - ro - wa - han - ol




Ystyr **niwrowahanol** ydy bod eich ymennydd yn gweithio mewn ffordd wahanol i'r rhan fwyaf o bobl. Efallai eich bod yn awtistig neu fod gennych ADHD.



Roedden ni eisiau gwybod ydy pawb yn cael ei drin yn deg mewn meithrinfeydd ac ysgolion.




Roedden ni eisiau gweld faint mae ysgolion a chynghorau lleol yn dilyn y gyfraith a'r rheolau ar gyfer:



- **cynhwysiant.** Ystyr **cynhwysiant** ydy gwneud pethau mewn ffordd sy'n golygu bod pawb yn gallu cymryd rhan

a




- **hygyrchedd.** Ystyr **hygyrchedd** ydy pa mor hawdd ydy hi i bawb gymryd rhan

## Beth wnaethon ni



Mae gwahanol sefydliadau ac elusennau wedi ein helpu ni i ddod o hyd i deuluoedd a allai ein helpu ni gyda'n gwaith.




Fe wnaethon ni siarad â 40 o deuluoedd gwahanol o bob rhan o Gymru.



Fe gawson ni gyfarfodydd wyneb yn wyneb ac ar-lein gyda rhieni a gofalwyr plant anabl a niwrowahanol.



Fe wnaethon ni siarad â phlant anabl a niwrowahanol hefyd.



Fe wnaethon ni ysgrifennu'r pethau roedd pawb wedi'i ddweud a beth wnaethon ni ei ddarganfod.



# Pethau roedden ni wedi holi amdanyn nhw

Fe wnaethon ni ofyn cwestiynau i rieni, gofalwyr a phlant i weld:



- ydy ysgolion a meithrinfeydd yn ateb anghenion plant anabl a niwrowahanol



- beth sy'n atal ysgolion a meithrinfeydd rhag gwneud yn siŵr fod pawb yn cael ei drin yn deg



- ydy teuluoedd a phlant yn gallu rhoi eu barn am y gefnogaeth maen nhw'n ei chael yn yr ysgol



- a ydy plant a theuluoedd anabl a niwrowahanol yn cael yr un dewisiadau â phobl eraill. Pethau fel mynd i glybiau a gweithgareddau

# Pethau da a glywson ni



Dywedodd rhai teuluoedd fod ysgol eu plentyn yn rhoi cefnogaeth dda iawn iddyn nhw.



Dywedodd rhai teuluoedd mai'r staff sy'n gwybod beth ydy'r ffordd orau o helpu plant anabl.



Pan fydd y 2 beth yma'n digwydd, roedden nhw'n dweud bod eu plentyn yn teimlo'n hapus yn yr ysgol.




Dywedodd teuluoedd am lawer o bethau eraill am fywyd ysgol eu plentyn.




Fe wnaethon ni ddarganfod 3 pheth mawr.

# Peth mawr 1:  Cynhwysiant



## Tegwch

Dywedodd rhai teuluoedd doedden nhw ddim yn teimlo bod eu plant yn cael eu trin yn deg.  Pethau fel:



- ddim yn gallu ymuno yn yr un gweithgareddau a chlybiau â phlant eraill

neu




- gofyn iddyn nhw beidio â dod i'r ysgol weithiau.  Efallai am nad oedd digon o staff cymorth yno

## Cynghorau lleol




Dywedodd rhai teuluoedd doedden nhw ddim yn teimlo eu bod yn gallu ymddiried yn eu cyngor lleol.




Roedden nhw'n credu mai'r unig beth y mae cynghorau'n poeni amdano yw faint mae pethau'n ei gostio.



Dywedodd rhai teuluoedd doedd cynghorau ddim yn dweud wrthyn nhw pa wasanaethau allai gefnogi eu plentyn.



Dywedodd rhai pobl ei bod wedi cymryd gormod o amser i gael gwybodaeth gan y cyngor.

## Deall anableddau



Doedd rhai teuluoedd ddim yn hoffi’r ffordd roedd rhai staff ysgolion a meithrinfeydd yn gwneud iddyn nhw deimlo.



Dwedon nhw dydy’r staff weithiau ddim yn deall sut mae anabledd plentyn yn gallu effeithio ar ei ymddygiad.

Pethau fel gwneud synau neu beidio â chymryd rhan ym mhopeth.




Mae rhai plant anabl yn cael trafferth ymuno. Mae gwneud synau yn helpu rhai plant anabl i deimlo’n dawel.



Ond roedd rhai aelodau o'r staff yn dweud geiriau fel ‘drwg’ i siarad am y pethau hyn. Doedd staff ddim yn deall pam fod y plant yn gwneud y pethau hyn.

## Dysgu siarad Cymraeg yn yr ysgol



Mae rhai ysgolion yng Nghymru yn dysgu plant yn Gymraeg ac yn Saesneg.



Dywedodd rhai teuluoedd dydy eu plentyn ddim wedi cael cyfle i ddysgu Cymraeg yn yr ysgol.



Maen nhw'n meddwl mai'r rheswm am hyn ydy oherwydd anabledd eu plentyn.



Mae rhieni eisiau i'w plant gael yr un cyfleoedd â phlant eraill i ddysgu Cymraeg yn yr ysgol.



## Cymryd rhan mewn tripiau ysgol a gweithgareddau eraill.

Dywedodd rhai teuluoedd doedd eu plentyn ddim yn gallu mynd ar dripiau ysgol oherwydd ei anabledd.



Dywedodd rhai teuluoedd fod staff wedi gweithio'n galed i'w cefnogi yn y ffordd orau pan aeth eu plentyn ar drip ysgol.

# Peth mawr 2: hygyrchedd

## Cael gwybod bod gan eich plentyn anabledd



Pan fydd ysgol yn cael gwybod gan **arbenigwr** fod gan blentyn anabledd, mae'r ysgol yn gallu rhoi'r cymorth iawn.

**Arbenigwr** ydy rhywun sy'n gwybod llawer am rywbeth.



Dywedodd rhai teuluoedd ei bod yn cymryd amser hir i gael gwybod oedd gan eu plentyn anabledd.



Felly roedd yn anodd i'r plentyn gael y cymorth iawn yn yr ysgol neu'r feithrinfa.



Mae teuluoedd yn poeni bod aros am gymorth yn golygu dydy eu plentyn ddim yn cael y cyfleoedd gorau yn yr ysgol.



## Gwasanaethau cymorth

Er mwyn rhoi'r cymorth gorau, dylai gwahanol wasanaethau weithio gydag ysgolion.  Gwasanaethau fel:



- therapi iaith a lleferydd

  Mae hyn yn helpu plant i wybod beth ydy'r ffordd orau o ddeall pobl eraill a dweud beth sydd ei angen arnyn nhw.

**a**



- therapi galwedigaethol

  Mae hyn yn helpu plant i wneud pethau yn y ffordd orau iddyn nhw.  Pethau fel cael sedd neu gwpan arbennig.



Dywedodd rhai teuluoedd dydy gwahanol wasanaethau cymorth ac ysgolion ddim yn siarad digon â'i gilydd.

Felly does gan staff ddim ddigon o wybodaeth i gefnogi
eu plentyn yn y ffordd orau.

## Bod yn yr ysgol



Mae rhai teuluoedd yn dweud bod ysgolion yn meddwl bod pethau fel arholiadau yn bwysicach nag **iechyd meddwl**.



Ystyr **iechyd meddwl** ydy sut rydych chi'n teimlo yn eich meddwl a sut rydych chi'n ymdopi â bywyd bob dydd.



Mae rhai teuluoedd yn credu bod eu plant yn cael gwaith sy'n rhy hawdd iddyn nhw.

Maen nhw'n meddwl mai'r rheswm am hyn ydy oherwydd anabledd eu plentyn.



Dywedodd rhai rhieni fod gormod o blant mewn dosbarth. Felly mae'n anoddach i blant anabl a niwrowahanol gael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw.



Mae rhai rhieni’n meddwl y dylai mwy o ysgolion gael ystafell dawel. Dyma ystafell lle gall plant fynd iddi pan maen nhw’n cael trafferth ymdopi.



Mae rhai rhieni’n dweud does gan ysgolion ddim digon o bethau fel rampiau ar gyfer cadeiriau olwyn a byrddau newid.

## Hyfforddi staff



Mae rhai teuluoedd yn credu dydy staff yr ysgol ddim wedi cael digon o hyfforddiant am anableddau. Felly dydy ysgolion ddim yn gwneud **addasiadau rhesymol** ar gyfer eu plentyn.




Ystyr **addasiadau rhesymol** ydy gwneud newidiadau bach er mwyn i rywun allu defnyddio gwasanaeth.



Mae rhai teuluoedd yn meddwl does dim digon o staff mewn ysgolion yn gwybod llawer am anableddau.

## Siarad â rhieni a gwrando arnyn nhw



Mae rhai teuluoedd yn credu dydy staff ddim yn gwrando ar beth maen nhw'n ei ddweud am eu plentyn.



Dywedodd rhieni fod rhai arbenigwyr yn meddwl eu bod yn gwybod mwy am eu plentyn na nhw.



Mae rhai rhieni'n meddwl dydyn nhw ddim yn gwybod digon am beth sy'n digwydd i'w plentyn yn yr ysgol.



Maen nhw eisiau i staff ddweud mwy wrthyn nhw am y pethau sy'n digwydd pan fydd eu plentyn yn yr ysgol.

## Cymorth yn ystod gwyliau'r ysgol




Dywedodd rhai teuluoedd does dim cymorth ar gael i blant anabl yn ystod gwyliau'r ysgol.



Dwedon nhw does dim digon o glybiau gwyliau gyda lle i blant anabl.

## Bod yn yr ysgol




Dywedodd rhai rhieni plant anabl dydy eu plentyn ddim yn mynd i'r ysgol am y diwrnod llawn.




Y rheswm am hyn ydy bod ysgolion yn dweud wrth rieni am fynd â'u plant adref ar ôl ychydig oriau.




Mae ysgolion yn dweud bod hyn yn well i'w plentyn.



Mae rhieni'n meddwl mai'r rheswm am hyn ydy does gan ysgolion ddim digon o staff i gefnogi eu plentyn drwy'r amser.

## Llenwi ffurflenni




Er mwyn cael cymorth ychwanegol i blentyn, mae angen i staff a rhieni lenwi rhai ffurflenni hir.



Dywedodd rhai rhieni eu bod nhw'n cael trafferth llenwi'r ffurflenni. Doedden nhw ddim yn cael cymorth gyda hyn.

## Arian



Dywedodd rhai rhieni nad yr ysgol sydd ar fai oedd os dydy eu plentyn ddim yn cael y cymorth iawn.




Maen nhw'n credu dydy cynghorau lleol ddim yn rhoi digon o arian i ysgolion i dalu am staff cymorth.

## Cyrraedd yr ysgol



Mae rhai plant anabl yn defnyddio cludiant fel tacsis i gyrraedd yr ysgol.

Dywedodd rhai rhieni doedd hyn ddim bob amser yn gweithio yn y ffordd orau i'w plentyn. Oherwydd pethau fel:



- plant eraill yn brifo eu plentyn yn y tacsi



- tacsis ddim yn dod ar yr adeg orau i'r teulu



- gyrwyr yn ddigywilydd am bobl ag anableddau




Mae rhai rhieni'n mynd â'r plant i'r ysgol yn eu car eu hunain.



Dwedon nhw fod hyn yn achosi problemau weithiau.  Pethau fel methu parcio ym maes parcio'r ysgol.



Weithiau roedd rhaid iddyn nhw gario eu plentyn ymhell i fynd o'r car i'r ysgol.

## Peth mawr 3: Sut mae teuluoedd yn teimlo



### Rhieni ddim yn gallu gweithio

Dywedodd rhai rhieni fod peidio â chael digon o gymorth i'w plentyn yn yr ysgol yn golygu:




- doedden nhw ddim yn gallu cael swydd. Os ydy eu plentyn yn cael ei anfon adref o'r ysgol, mae angen i rywun fod gartref i ofalu amdano

neu




- roedd rhaid iddyn nhw wneud swydd â chyflog is neu weithio llai o oriau

## Iechyd meddwl



Dywedodd rhieni fod peidio â chael y cymorth iawn yn yr ysgol yn effeithio ar iechyd meddwl eu plentyn.



Mae rhai plant anabl yn teimlo eu bod yn cael eu gadael allan ac yn ei chael yn anodd gwneud ffrindiau.




Mae rhestr hir o blant a phobl ifanc yn aros am gymorth iechyd meddwl.



Mae rhieni’n dweud bod hyn yn effeithio ar eu hiechyd meddwl eu hunain os dydy eu plentyn ddim yn cael y cymorth sydd ei angen arno.

## Hawliau plant anabl



Ystyr **hawliau** ydy’r pethau rydych chi’n cael eu gwneud, a sut dylech chi gael eich trin.




Mae rhai rhieni’n dweud dydy holl staff yr ysgol ddim yn deall y cyfreithiau ar gyfer gwneud yn siŵr fod plant anabl yn cael eu hawliau.



Mae rhieni’n meddwl mai’r rheswm am hyn yw bod gan staff ysgolion ormod i’w wneud.



Oherwydd hyn, mae rhai rhieni’n meddwl dydy plant anabl ddim yn cael eu hawliau.  Pethau fel cael eu cadw ar wahân i blant eraill yn y dosbarth.



Mae rhieni’n credu dydy’r llywodraeth ddim yn defnyddio arian yn y ffordd orau i ysgolion.



Mae angen i'r llywodraeth dalu i staff gael mwy o hyfforddiant am hawliau pobl anabl.




## Yr arian sydd gan deuluoedd

Mae'n rhaid i rai rhieni plant anabl brynu pethau ychwanegol ar gyfer eu plentyn.




Pethau fel:

- gwely neu fwrdd arbennig

  neu



- glytiau ychwanegol i'w hanfon i'r ysgol ar gyfer eu plentyn



Mae'r pethau hyn yn costio llawer o arian.  Does gan rai teuluoedd ddim digon o arian ar gyfer hyn.

# Beth fydd yn digwydd nesaf



Fe wnaethon ni ofyn i deuluoedd beth, yn eu barn nhw, ddylai ddigwydd er mwyn gwella pethau.  Dwedon nhw eu bod yn credu:



- bod angen i athrawon gael mwy o hyfforddiant i gefnogi plant ag anableddau



- dylai staff ysgol ac arbenigwyr gydweithio mwy




- mae angen i wasanaethau gael mwy o arian gan y llywodraeth



- mae angen i rieni plant anabl gael amser ychwanegol o'r gwaith i ofalu am eu plant



- mae angen i ysgolion siarad mwy â rhieni am eu plant




- dylai pob ysgol gael ystafell dawel ar gyfer plant sydd ei hangen



- dylai rhywun fod yn gweithio gyda phlant anabl, eu teuluoedd a'u hysgolion

  Byddai hyn yn golygu bod teuluoedd â phlant anabl yn cael eu cefnogi yn y ffordd orau.

# Rhagor o wybodaeth



Cysylltwch â ni os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu os ydych chi eisiau cael rhagor o wybodaeth am ein gwaith:




**Rhif ffôn:**

**0300 200 6565**




**E-bost:**

**SeneddPlant@senedd.cymru**



**Ar-lein:**

**senedd.cymru/pwyllgorau/y-pwyllgor-plant-pobl-ifanc-ac-addysg/**